# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 7fed o Fawrth 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans, Rhys Tudur, Tegid Jones, Delyth Parry, Miriam Williams, Margaret Griffith, Gareth O. Davies, Euros Jones, Anwen Jones, Dylan Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Aled Davies, Darren Morley, Angela Williams, a Sion Jones.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion** cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2024.

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Ionawr 2024**.

4. **Datgan buddiant personol** – neb.

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd** – dim.

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

(a) **Cais rhif: C20/0656/41/CR - Gwynfryn Plas, Ffordd Rhoslan, Llanystumdwy** trosi ac addasu adfail yn 25 uned byw. **Gwrthwynebu – asesiad iaith anigonol a gwallus ganddynt, ddim ar y llwybr ffordd bws, a'r un rhesymau ag y nodwyd eisioes ar 21.05.22 sef**:-

***"Penderfynwyd gwrthod y datblygaid*** *ar sail yr un rhesymau ag y nodwyd yn dilyn cyfarfod y Cyngor Cymuned ar 3ydd o Ragfyr 2020. Nid oes dim i'w weld yn y cais yma wedi newid i gyfarch y gwrthwynebiadau a nodwyd isod:-*

- *Nid yw yn cydymffurfio hefo Polisi Tai 7 y Cynllun Datblygu (t 140) ar gyfer Trosi adeiladau traddodiadol yng nghefn gwlad agored i ddefnydd preswyl. Mae'r datblygiad i fod i gydymffurfio â'r 5 pwynt yn y polisi yma. Pwynt 1 y polisi ydi "Bod tystiolaeth nad yw defnydd cyflogaeth o'r adeilad yn hyfyw". Nid oes tystiolaeth o hyn yn y dogfennau sydd wedi cael ei dangos hefo'r cais.*

- *Bod y datblygiad yn darparu uned fforddiadwy ar gyfer angen lleol". Nid oes sôn am unedau fforddiadwy nag unrhyw arolwg a wnaed o'r angen am unedau o'r fath.*

- *Bod y strwythur yn un cadarn". Nid oes sôn fod arolwg strwythurol o'r adeilad wedi ei wneud yn barod ac mae pawb yn ymwybodol fod na ddifrod mawr wedi ei wneud i'r lle ar ôl y tân. Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod yr un wal yn gadarn.*

- *Polisi Tai 9 Adran B (t143) Rhif 9 "Bod y safle mewn lleoliad cynaliadwy – sef yn agos i ganolfan gwasanaethol neu ar lwybr cludiant cyhoeddus". Nid yw yn cydymffurfio hefo'r naill na'r llall.*

- **3** *Polisi Strategol PS 18 (t157), Pwynt 1. "Trothwy tai fforddiadwy" Ar gyfer trosi adeilad traddodiadol yng nghefn gwlad y trothwy ydi 100%. Nid oes dim sôn fod yr un o'r fflatiau yma am fod yn fforddiadwy, heb sôn am bob un ohonyn nhw.*

- *Nid oes dim sôn am Ddatganiad Iaith Gymraeg hefo'r cais.*

- *Ar y ffurflen gais, pwynt 21 Cyflogaeth, mae nhw'n sôn fod 5 yn cael eu cyflogi yno rŵan ("existing employees") a 3 rhan amser. Nid ydym yn ymwybodol fod yna neb yn gweithio yno ar hyn o bryd. Os mai fflatiau preswyl ydi'r bwriad, beth fyddai gwaith y bobol yma?*

***Felly i grynhoi, nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio hefo sawl un o Bolisïau Cyngor Gwynedd ac fe ddylid ei wrthod."***

(b) **Cais rhif: C24/0091/41/LL – Tyn Coed Uchaf, Chwilog, Pwllheli**, dymchwel ffermdy deulawr o adeiladwaith carreg a chodi tŷ teulu deulawr newydd. **Cefnogi.**

**(c ) Cais rhif:- C24/0144/41/DT - Bryn Tirion, Chwilog, Pwllheli** – gosod paneli solar 16KW arfaethedig ar lecyn o dir a gwaith cysylltiedig. **Cefnogi.**

(ch ) **Cais rhif: C24/0009/41/LL - Shrimala Trust, Ynys Graianog, Ynys, Cricieth** – adeiladu adeliad cyfarfod newydd. **Dim gwrthwynebiad**. Hefyd, angen anfon llythyr i gwyno at Arweinydd Cyngor Gwynedd Dyfrig Siencyn a'r Cynghorydd Dafydd Meurig (Cyngor Gwynedd) yn dweud fod y cais wedi cael ei anfon mewn camgymeriad gan yr Adran Cynllunio at Gyngor Cricieth yn hytrach na Llanystumdwy.

**Materion yn y gymuned**.

7. **Llanystumdwy**
a. **Draen wedi cau ger Bedd Lloyd George** – Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.
b. **Canolfan ddydd Encil y Coed, Cricieth** – ymholiad pam fod y Ganolfan wedi cau i bobl fynd yno. **Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd.**

8. **Rhoslan/Ynys**
a) Tyllau mawr ar y lôn rhwng groesffordd Ynys a Hendy a ffôs angen ei chlirio. **Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd**
b) Difrod yn cael ei wneud i arwyneb y Lôn Goed gan ddwr glaw sy'n gorlifo o ffôs sydd wedi cau ger Bryn March, Ynys, Cricieth. Mae angen agor y ffôs. **Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd**

9. **Chwilog/Llanarmon**
a. **Tyllau mawr ar y lôn o Pencarth, heibio Tyddyn Heilyn i gyffordd Ysgubor Fawr** - Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd, ac **angen cysylltu eto i ofyn wrthyn ail wynebu'r lon yn iawn yn hytrach na llenwi'r tyllau yn unig.**

b. **Llwybr o dan bont Afonwen am y traeth – Hafan y Môr** – derbyniwyd gwybodaeth gan Rhys Roberts, Swyddog Llwybr Arfordir Rhanbarth Gwynedd yn dweud y bydd yn cau y llwybr drwy safle Hafan y Môr am gyfnod tu hwnt i bythefnos er lles iechyd y cyhoedd, a dyma yw cyngor yr arbenigwyr iechyd a diogelwch sydd yn arwain ar y gwaith monitro. Fe wnaiff ein diweddaru eto ymhen pythefnos neu cyn hynny pe byddai newid i'r sefyllfa.
Os bydd y sefyllfa yn parhau fel hyn am gyfnod mwy hir dymor, yna bydd yn edrych am lwybr amgen mwy addas, ond gyda diffyg llwybrau cyhoeddus eraill yn y cyffiniau, hwn yw'r unig opsiwn rhesymol ar hyn o bryd. **Derbyn**.

c. **Tai Cae Bodlondeb** - hysbyseb am y tai yn nodi eu bod ugain munud o Abersoch. Pryder ynglyn ag at bwy y maent yn anelu, er bod 6 o'r tai yn rhai i'w rhentu gan Tai Teg. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at Beech Properties, a chopi i Cyngor Gwynedd yn datgan fod llawer o bryderon ynglyn â'r datblygiad yma yn y gymuned, yn bennaf oherwydd fod y manylion sydd

ar ei gwefan i'w weld fel petai yn anelu at brynwyr/ pobl o'r tu allan i'r ardal. Credir nad oes unrhyw reolaeth nac amodau cynllunio wrth werthu'r tai.
Maent yn nodi fod Chwilog ym Mhen Llŷn, ond mewn gwirionedd mae yn ardal Eifionydd. Roedd ganddynt hysbyseb ar ei gwefan yn dangos lluniau traeth Porthdinllaen, Morfa Nefyn ac Abersoch, sydd cryn bellter o'r pentref ac sydd yn awgrymu ei bod yn denu prynwyr 'tai haf' i'r ardal. Mae hyn yn broblem fawr yn yr ardal yn barod. Yn sicr nid yw neb eisiau gweld hyn yn digwydd ym mhentref Chwilog hefyd.

Mae prisiau'r tai yn uchel iawn, ac allan o gyrraedd pobl leol yr ardal. Y rhataf yn ol ei gwefan yw £350,00.00.

Mae pentref Chwilog yn bentref sydd yn tyfu yn ddiweddar gyda'r mwyafrif yn yr ardal yn siarad Cymraeg. Byddai cael mewnlifiad o brynwyr o'r tu allan i'r ardal yn cael effaith negyddol iawn ar y gymuned.

Fe adeiladwyd stad Gerddi Madryn yn y pentref tua 4 mlynedd yn ol, ac fe hysbysebwyd y tai i gyd yn lleol gan yr adeiladwr, ac fe gawsant ei prynu'n sydyn. Mae'r mwyafrif o'r tai yma wedi cael ei prynu gan deuluoedd Cymraeg yn yr ardal, lle maent yn byw yno lawn amser, ac yn rhan o'r gymuned.

Teimlir fod marchnata'r tai fel hyn yn ddi-egwyddor, ac yn targedu pobl o'r tu allan i'r ardal.

10. **Pencaenewydd/Sardis**
**Lon rhwng Mynachdy Bach a Phensarn wedi 'rhoi', a pherygl i gerbyd fynd i'r cae oherwydd nad oes ffens yno rwan**. Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd

11. **Llangybi - dim**

12. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 29.02.2024. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

13. **Prisiau llwybrau** – Clerc wedi trefnu i osod hysbyseb yn Y Ffynnon, y wefan a'r hysbysfyrddau hefo dyddiad cau 30.04.2024

14. **Archwilio allanol** – derbyniwyd gwybodaeth gan Mr Deryck Evans, Archwilio Cymru (ar 28.02.2024) fod popeth yn iawn hefo'r archwiliad allanol am y flwyddyn yn diweddu 31.03.2023.
Mae'r drefn ar gyfer archwilio allanol wedi newid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, sef fod archwiliad llawn yn cael ei gynnal bob 3 mlynedd, a'r flwyddyn yn diweddu Mawrth 2022 oedd yr un llawn ar gyfer Cyngor Cymuned Llanystumdwy.
Bydd y ffurflen flynyddol yn cael ei gosod ar y wefan, a'r 'Hysbysiad o Gasgliad Archwilio a'r Hawl i Archwilio'r Ffurflen Flynyddol'. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

15. **Archwilio mewnol** – penderfynu gofyn wrth Adran Archwilio Cyngor Gwynedd wneud yr archwilio mewnol am y flwyddyn 01.04.2023- 31.03.2024 eto eleni.

16. **Cyfraniadau ariannol** – derbyniwyd llythyrau/ebyst yn diolch gan bawb a dderbyniodd daliad yn dilyn cyfarfod mis Chwefror 2024.

17. **Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** - Clerc wedi anfon ebost at Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor, a derbyniwyd taliad o £417.80 fis Chwefror 2024

18. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio Cymru | Archwilio 2021/2022 (ARINV/010313) | **390.00** | | **390.00** | **390.00** |
| Neuadd Chwilog | Cynllun gofod cynnes | **200.00** | | **200.00** | **200.00** |
| Un Llais Cymru *** | Tâl aelodaeth (01.4.24 - 31.03.25) | **382.00** | | **382.00** | **382.00** |

19. Cyflog mis Chwefror 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol Clerc, Chwefror 2024<br>35 awr y mis x £16.67 = £583.45 | 583.45<br>116.80 -llai treth<br>**£466.65** | **466.65** | **466.65** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar gyflog y Clerc Chwefror 2024 | 584.00 x 20% =<br>**£116.80** | **116.80** | **116.80** |
| Costau swyddfa'r Clerc Chwefror 2024 | **£26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr** – cytunwyd i dalu Tâl Aelodaeth Un Llais Cymru yn dilyn y cyfarfod - gweler rhestr taliadau uchod (***).

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf nos Iau **04.04.2024**, yn Festri Pencaenewydd, ac yn rhithiol.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**